

Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol yng Ngharchar Ei Fawrhydi Berwyn

**ar gyfer y flwyddyn adrodd
1 Mawrth 2024 i 28 Chwefror 2025**

Cyhoeddwyd Awst 2025

Cynnwys

Adrannau rhagarweiniol 1 – 3 Tudalen

1.	Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol	3
2.	Disgrifiad o'r sefydliad	4
3.	Pwyntiau allweddol	5

Adrannau tystiolaeth 4 – 7

4.	Diogelwch	8
5.	Triniaeth deg a dyngarol	11
6.	Iechyd a llesiant	15
7.	Cynnydd ac ailsefydlu	18

Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

Ystadegau'r Bwrdd	21
Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol	21

**Cyhoeddir pob adroddiad blynyddol y Bwrdd Monitro Blynyddol ar
www.imb.org.uk**

Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae Deddf Carchardai 1952 yn mynnu bod pob carchar yn cael ei fonitro gan fwrdd annibynnol, wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar wedi'i leoli.

O dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gyda gweinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- bodloni ei hun bod y rhai yn nalfa'r carchar yn cael eu trin yn ddyngarol ac yn gyfiawn, a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn amrywiol ac yn ddigonol.
- rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo fel y mae'n ei ystyried yn briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai yn ei ddalfa.

I alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, ac at gofnodion y carchar.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i lunio i gryfhau gwarchodaeth i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o agored i niwed a'i nod yw ceisio eu hatal rhag cael eu trin yn wael drwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygiadau ar gyfer pob dalffa. Mae OPCAT yn mynnu bod Gwladwriaethau'n dynodi Mecanwaith Atal Cenedlaethol i gynnal ymweliadau â dalfeydd, i fonitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer carcharorion ac i wneud argymhellion i atal pobl rhag cael eu trin yn wael. Mae'r Bwrdd yn rhan o Fecanweithiau Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

2. Disgrifiad o'r sefydliad

Mae carchar Berwyn yn Stad Ddiwydiannol Wrecsam, Gogledd Cymru. Rhagwelwyd y byddai'n garchar derbyn, ailsefydlu categori C a hyfforddi i ddynion, ond mae bellach hefyd yn gartref i garcharorion ar remand a chategori B, yn ogystal â dwy gymuned carcharorion agored i niwed. Mae'n garchar modern gyda chapasiti gweithredu o 2000¹. Mae'r carchar yn cynnwys tri phrif dŷ: Alwen, Bala a Ceiriog, ynghyd ag Ogwen, uned gofal a gwahanu (CSU), sy'n gallu dal 21 o garcharorion. Rhennir pob tŷ yn wyth asgell. Ar gyfartaledd, mae 30% o'r celloedd yn rhai deiliadaeth sengl, a 70% yn rhai deiliadaeth ddwbl. Cynlluniwyd y celloedd deiliadaeth ddwbl felly.

¹ Mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn wybodaeth reoli leol. Maent yn adlewyrchu sefyllfa'r carchar adeg adrodd, ond gallant newid yn dilyn dilysu pellach ac felly efallai na fyddant bob amser yn gyson ag Ystadegau Swyddogol a gyhoeddwyd yn ddiweddarach gan y

Weinyddiaeth Gyfiawnder.

3. Pwyntiau allweddol

3.1 Prif

ganfyddiadau

Diogelwch

- Yn yr un modd â gweddill yr ystad carchardai, mae cyffuriau'n llwyddo i ddod i mewn i CEF Berwyn. Er bod mesurau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn, gall hyd yn oed pecynnau bach iawn gynnwys digon o gyffuriau i bara am wythnosau neu fisoedd i garcharor, felly mae hon yn frwydr gyson.
- Mae tanau yn y celloedd a fandaliaeth wedi cynyddu. Mae'r rhain yn aml yn ganlyniad i ddynion yn ofni trais, gan arwain at alwadau i gael eu hadleoli.
- Mae nifer y digwyddiadau lle canfuwyd carcharorion o dan ddylanwad sylwedd anghyfreithlon, yn ogystal â digwyddiadau treisgar, yn dal yn uchel. Mae ofn trais a diflastod yn gwaethgu hyn.
- Mae llawer o garcharorion yn dod i mewn o'r tu allan i'r ardal, sy'n cyflwyno heriau ychwanegol, fel, er enghraifft, cadw mewn cysylltiad â theulu. Gall 200 o garcharorion fod ar remand ar unrhyw un adeg.

Triniaeth deg a dyngarol

- Mae lefelau staff yn uwch nag yn 2023-2024 ac mae mwy o hyfforddiant wedi'i gwblhau, felly mae'n ymddangos bod staff yn fwy hyfedr wrth reoli carcharorion.
- Mae'r Bwrdd wedi sylwi bod staff, yn gyffredinol, yn ymgyfarwyddo â manylion carcharorion ac yn eu trin fel unigolion.
- Mae'n ymddangos bod ymdrech ar y cyd i wella'r gwaith o reoli carcharorion agored i niwed.

Iechyd a llesiant

- Mae gan nifer fawr o garcharorion broblemau iechyd meddwl. Gan nad yw carchardai wedi'u cynllunio ar gyfer pobl â heriau iechyd meddwl, nid yw hyfforddiant swyddogion ar draws ystad y carchar yn ddigonol ar gyfer rheoli'r carcharorion hyn.
- Gan nad oes digon o leoedd mewn ysbytai diogel, mae llawer o garcharorion sydd wedi cael eu hasesu fel rhai sy'n addas i'w trosglwyddo yn aros am fwy na'r 28 diwrnod a nodir yn y polisi. Mae hyn yn golygu bod staff carchardai, nad ydynt yn ymarferwyr iechyd meddwl, yn gorfod gofalu am bobl ag anghenion cymhleth.

Cynnydd ac adsefydlu

- Roedd y cynlluniau rhyddhau cynnar (polisi gan y llywodraeth lle gellid rhyddhau carcharorion cymwys ar ôl bwrw traean o'r ddedfryd i fynd i'r afael â gorlenwi mewn carchardai) yn golygu bod llai o amser i garcharorion gwblhau cyrsiau a chael cymwysterau, a llawer llai o amser i reoli'r broses ailsefydlu.
- Gan fod llawer o garcharorion yng Ngharchar EF Berwyn am gyfnodau byrrach, nid oes ganddynt amser bob amser i setlo na chwblhau gwaith adsefydlu.
- Mae polisi Cyngor Bwrdeistref Wrecsam yn golygu nad yw carcharorion yn

cael eu hasesu ar gyfer tai tan y diwrnod rhyddhau, sy'n gallu arwain at ddigartrefedd.

3.2 Prif feysydd datblygu

I'R GWEINIDOG

- Dedfrydau o garchar er mwyn diogelu'r cyhoedd (IPPs): a ellir gwella cymorth gyda bywyd ar ôl rhyddhau er mwyn lleihau lefel y galw yn ôl? A fydd y broses o ryddhau'r carcharorion hyn yn cael ei chyflymu?
- Rhagwelwyd y byddai gostyngiad mewn dedfrydau tymor byr, ond nid yw hyn wedi digwydd eto ac mae nifer y carcharorion sy'n dod i mewn ar ddedfrydau byr yn uchel. Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn?
- Mae anghysondeb rhwng trefniadau ôl-ryddhau ar gyfer carcharorion sy'n dychwelyd i Gymru ac ar gyfer y rhai sy'n dychwelyd i Loegr. Beth a wnaiff y Gweinidog i gywiro hyn?
- Mae'r Bwrdd yn parhau i bryderu nad yw dynion sydd â phroblemau iechyd meddwl sydd wedi cael diagnosis, neu sy'n amlwg yn rhai y gellir gwneud diagnosis ohonynt, yn cael eu trosglwyddo i gyfleuster iechyd meddwl diogel o fewn yr amserlen a nodir yn y protocol. Gwelir tystiolaeth o hyn gan 26 o ddynion a drosglwyddwyd o CEF Berwyn yn 2022-2023 a 36 yn 2023-2024, ond dim ond 18 yn 2024-2025. Mae'n cael ei waethygu ymhellach gan garcharorion sy'n aros cyfnodau hir am leoliad addas. Mae rhai o'r dynion hyn yn cael eu cadw yn yr uned gofal a gwahanu (CSU), yn aros i gael eu trosglwyddo. Fodd bynnag, mae 190 o ddynion eraill yn Berwyn sydd â'r mathau hyn o gyflyrau iechyd meddwl. A yw'r Gweinidog yn ystyried carchar ac, yn benodol, yr Uned Diogelwch Cymunedol, yn lleoliad addas ar gyfer y dynion hyn?

I'R GWASANAETH CARCHARDAI

- Fel y nodwyd uchod, rydym yn parhau i bryderu am nifer y dynion sydd ag anhwylderau personoliaeth neu iechyd meddwl sy'n cael eu cadw yn yr Uned Diogelwch Cymunedol. Mae dynion sydd â'r cyflyrau hyn yn cael eu cadw yn yr Uned heb lawer o ysgogiad meddyliol. A yw'r amodau hyn yn briodol i ddal dynion?
- Mae paent yn plicio oddi ar waliau rhai o'r celloedd. Dechreuwyd rhaglen adnewyddu sawl blwyddyn yn ôl i gau uned ar y tro, gan leihau capasiti o 88 gwely. Cafodd hyn ei atal oherwydd pwysau yn ystad y carchar. Ac ystyried maint y broblem, a dynion yn byw mewn celloedd is na'r safon, a yw hyn yn dderbyniol a sut y gellir ei gywiro?
- Rydym wedi adrodd ers sawl blwyddyn nad yw'r system wresogi wedi bod yn addas i'r diben. Mae'n dda adrodd, yn dilyn gwaith atgyweirio helaeth, bod y system yn gweithio ac nad yw'r Bwrdd Monitro Annibynnol wedi cael unrhyw gwynion ynghylch gwresogi.
- Os bydd carcharorion yn cyrraedd yn hwyr ar ddydd Gwener, ni fydd y fferylllydd ar gael tan y dydd Llun. Mae hyn yn broblem fawr, gan ei fod yn golygu na ellir rhoi meddyginiaeth dros y penwythnos.

I'R LLYWODRAETHWR

Yn ystod ein gwaith monitro, rydym wedi nodi a chofnodi problemau yn y meysydd a restrir isod:

- Prynwyd set newydd o thermomedrau bwyd digidol yn gynharach yn y

flwyddyn. Yn anffodus, rydym yn parhau i gofnodi nad yw'r unedau hyn yn gweithio, gan fod y batris wedi cael eu dwyn.

- Rydym yn dal i gael adroddiadau gan garcharorion yn dweud nad ydynt yn gwybod pwy yw eu gweithiwr allweddol.

- Rydym wedi cael llawer o gwynion gan ddynion sy'n gweithio drwy'r dydd. Pan fyddant yn dychwelyd i'w hunedau, nid ydynt bob amser yn cael yr amser sydd wedi'i neilltuo iddynt yn yr awyr agored.
- Mae'r UDC yn aml yn llawn. Sut bydd y broblem hon yn

cael ei rheoli? Sut bydd y Llywodraethwr yn gwella'r sefyllfaoedd

hyn?

3.3. Ymateb i'r adroddiad diwethaf

Mater a godwyd	Ymateb a roddwyd	Cynnydd
Amseroedd aros i gael eu trosglwyddo i ysbytai diogel		Dim cynnydd
Hyfforddiant ychwanegol ar iechyd meddwl wedi'i dargedu, yn enwedig ar gyfer swyddogion mewn uned wahanu	Nid ymarferwyr iechyd meddwl yw swyddogion, ond mae hyfforddiant ymwybyddiaeth yn cael ei ddarparu	Rhywfaint o hyfforddiant wedi'i ddarparu, amrywiol gynlluniau i helpu gyda materion iechyd meddwl.
Dydy carcharorion ddim yn gwybod pwy yw eu gweithwyr allweddol	Cynllun newydd ar y gweill	Dim yn y cyfnod adrodd eto.

Adrannau tystiolaeth 4 – 7

4. Diogelwch

4.1 Derbyn a chynefino

Mae gorlenwi ar draws ystad y carchardai, a rhoi dedfrydau byr yn barhaus, yn dod â nifer uchel o bobl i'r dderbynfaf (tua 30 y dydd yn aml), yn aml ar ôl 5pm. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i staff carchardai a gofal ieuchyd weithio'n hwyr iawn er mwyn i bawb allu cael eu prosesu a'u hasesu'n briodol gan y gwasanaeth gofal ieuchyd.

Gan fod nifer o garcharorion yn cyrraedd ar yr un pryd yn aml, gallant fynd yn rhwystredig. Hefyd, oherwydd eu bod yn dod o'r tu allan i'r ardal leol, megis o Fanceinion a Lerpwl, er enghraifft, mae problemau o ran eu lleoli oddi wrth aelodau eraill y gang. Er bod CEF Berwyn yn wreiddiol yn disgwyl derbyn carcharorion ar remand o lysoedd gogledd Cymru, yn ymarferol maent yn cyrraedd o lysoedd yn Lloegr hefyd.

Roedd trosiant Berwyn yn 2025 1.5 gwaith (h.y. 3000) yn uwch na chapasiti gweithredol 2000.

Os bydd carcharorion yn cyrraedd yn hwyr ar ddydd Gwener, ni fydd y fferylllydd ar gael tan y dydd Llun. Mae hyn yn broblem fawr, gan ei fod yn golygu na ellir rhoi meddyginiaeth dros y penwythnos. Mae storfa Medi Well o feddyginiaethau hanfodol, ond nid yw hyn bob amser yn addas.

Mae'r Bwrdd wedi sylwi ar bobl sy'n cyrraedd ar sawl achlysur ac mae'n nodi bod dynion yn cael eu trin yn dawel ac yn ddyngarol gan staff a swyddogion (carcharorion dibynadwy sy'n ymgymryd â gwaith i ddarparu gwasanaethau sy'n cyfrannu at redeg y carchar) a chan staff. Mae bwyd poeth ar gael, gydag opsiynau ar gyfer pob deiet a chrefydd. Mae brechdanau ar gael yn hwyrach yn y nos. Gall pobl sy'n cyrraedd ofyn am gael siarad â Gwrandäwr (carcharor sydd wedi'i hyfforddi gan y Samariaid i gynnig cymorth emosiynol cyfrinachol i'w cyfoedion). Caiff yr eiddo ei gofnodi pan fydd yn cyrraedd. Fel arfer, rhoddir tegell, gliniadur a dillad gwely i'r rhai sy'n cyrraedd; fodd bynnag, oherwydd nifer uchel o garcharorion newydd, nid yw'r rhain bob amser ar gael.

Anfonir newydd-ddyfodiaid i'r asgell gynefino, lle byddant yn aros hyd at dri diwrnod cyn cael eu dyrannu i gelloedd parhaol. Mae 85 o leoedd ymsefydlu, ond mae angen 100.

Mae nyrsys cofrestredig yn cwblhau'r sgrinio noson gyntaf. Mae meddygon teulu'n darparu trefniadau dadwenwyno i garcharorion yr aseswyd bod angen triniaeth arnynt ar gyfer camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, a gwneir gwaith dilynol gan y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau integredig.

4.2 Hunanladdiad a hunan-niwed,

marwolaethau yn y ddalfa

Digwyddiadau hunan-niweidio

Ma wrt h 24	Ebri ll 24	Mai 24	Meh efin 24	Go rffe nn af	Awst 24	Med i 24	Hyd ref 24	Tac hw edd 24	Rha g 24	Iona wr 24	Chw efro r 24	Cyfans wm
----------------------	------------------	-----------	-------------------	------------------------	------------	-------------	------------------	------------------------	----------------	------------------	---------------------	--------------

				24								
142	104	184	127	146	146	157	177	131	133	127	115	1689

Mae nifer yr achosion o hunan-niweidio wedi bod yn gostwng ers mis Hydref 2024, ond mae'n dal yn uchel, yn enwedig ar yr asgell gynefino. Mae llawer o ddigwyddiadau'n ymwneud â rhwystredigaeth, ofn a defnyddio cyffuriau. Dros y cyfnod adrodd, gwelodd y Bwrdd fwy o ymdrechion gan staff i leihau hunan-niweidio. Mae llai o drosiant staff, felly mae swyddogion mwy newydd wedi'u hyfforddi'n well, yn enwedig o ran dogfennau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) (a ddefnyddir

i gefnogi carcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio neu ladd eu hunain), nad ydynt bob amser wedi cael eu cwblhau'n gywir ers tro. Fel rhan o'r fenter genedlaethol i leihau'r risg o hunan-niweidio yn yr ystad i ddynion, mae raseli gwlyb yn cael eu disodli gan raseli trydan, sy'n anoddach eu datgymalu.

Mae cyfarfod staff wythnosol yn trafod yn fanwl y carcharorion sydd fwyaf mewn perygl o hunan-niweidio, ac mae cynrychiolwyr gofal iechyd, Llywodraethwyr a Gwrandawyr yn mynd i gyfarfodydd ymyriadau diogelwch bob mis. Mae mwy o bwyslais yn awr ar gadw carcharorion yn brysur, gan fod diflastod yn gallu arwain at iselder a defnyddio cyffuriau. Roedd y Bwrdd yn falch o nodi'r ymdrech a wnaethpwyd i gynllunio ar gyfer cyfnod y Nadolig, gan fod staff yn ymwybodol o ba mor anodd y gall y Nadolig fod i garcharorion. Cafodd carcharorion brydau ar thema'r Nadolig, pecynnau tynnu sylw yn y gell (sydd hefyd ar gael mewn fformatau hygrych i bobl â gofynion niwrowahanol) ac, i garcharorion heb arian, credyd i ffonio adref. O ganlyniad, roedd yr awyrgylch dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd yn dda, ym marn y Bwrdd.

Gellir gofyn am wrandawyr drwy ffonau yn y celloedd, ddydd a nos, i gefnogi carcharorion wyneb yn wyneb, naill ai ar asgell neu mewn ystafell Gwrandawyr. Mae o leiaf pump o Wrandawyr hyfforddedig ar bob asgell. Mae'r Bwrdd wedi siarad â nifer o Wrandawyr, sy'n dweud bod yr hyfforddiant wedi eu dysgu sut i reoli eu teimladau eu hunain. Dywedasant eu bod yn falch o 'roi rhywbeth yn ôl'. Mae galwadau'n tueddu i fod am bryderon am y teulu, problemau gyda swyddogion neu fod yn y carchar am y tro cyntaf. Mae'r Gwrandawyr yn mynd yn ôl y diwrnod canlynol i weld sut mae'r galwr, ac maen nhw'n cadw log.

Ni chafodd cyfanswm o 313 o garcharorion unrhyw ymweliadau cymdeithasol yn 2024.

Bu dwy farwolaeth yn y ddalfa yn ystod y cyfnod adrodd. Ni chredir bod y naill na'r llall yn amheus, ond nid oes unrhyw adroddiadau swyddogol wedi cael eu cyhoeddi eto.

4.3 Trais a lleihau trais, hunanynysu

Ymosodiadau:

	Ma wrt h 24	Ebr ill 24	Mai 24	Me hef in 24	G orf fe nn af 24	Aw st 24	Me di 24	Hy dr ef 24	Tac hw ed d 24	Rh ag 24	Ion aw r 24	Ch we fro r 24	Cyfans wm
Carcharor ar garcharor	52	46	38	46	24	43	53	50	46	45	46	36	525
Faint oedd yn ddifrifol	4	2	7	3	7	3	3	6	2	4	3	3	47
Carchar or ar staff	19	19	19	17	20	19	32	22	18	13	4	10	212
Faint a oedd yn ddifrifol	3	5	3	1	6	7	4	5	3	1	1	-	39
Anaf heb esboniad	2	8	2	4	2	1	5	3	1	1	6	-	35

Cyfanswm	80	80	69	71	59	73	97	86	70	64	60	49	858
----------	----	----	----	----	----	----	----	----	----	----	----	----	-----


Cynyddodd trais yn Berwyn yn ystod y cyfnod adrodd, er ei fod wedi bod yn gostwng ers mis Medi 2024. Ym mis Ionawr 2025, roedd 35 o garcharorion ar gynlluniau herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIPs), sy'n cael eu defnyddio i helpu i reoli carcharorion sy'n peri risg uwch o drais, oherwydd defnyddio cyffuriau anghyfreithlon neu fwy o drais.

Rhoddir blaenoriaeth i'r rheini sy'n hunanynysu yn y strategaeth gweithiwr allweddol newydd (gweler adran 5.3).

Mae mwy o swyddogion wedi cwblhau hyfforddiant CSIP. Pan fydd carcharorion yn dweud eu bod yn teimlo'n annïogel, gwneir ymdrechion i'w hadleoli yn y carchar. Mae hyn wedi bod yn anoddach yn ystod y flwyddyn adrodd, gan fod y carchar bron â chyrhaedd ei gapasiti ac yn aml mae gan newydd-ddyfodiaid o Lerpwl a Manceinion gysylltiadau â gangiau, sy'n cyfyngu ar y gallu i adleoli.

Mae carcharorion sydd mewn perygl, yn aml oherwydd dyled, yn cael eu cadw yn yr asgell ar gyfer carcharorion agored i niwed. Aseswyd lefel perygl dyledion bob 12 mis, ond mae bellach yn digwydd bob chwe mis. Mae staff cymorth ychwanegol ar gael i garcharorion sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi.

4.4 Defnyddio grym



Mae nifer yr achosion o ddefnyddio grym (UoF) wedi aros yn gyson, ar wahân i gynnydd sydyn ym mis Medi 2024. Mewn cyfarfod misol yr uwch dîm rheoli, mae holl ddigwyddiadau UoF yn cael eu dadansoddi. Penodwyd cydlynnydd UoF i hyfforddi a monitro staff, a sicrhau bod dogfennau'n cael eu llenwi'n gywir.

Yn y 150 o ddigwyddiadau ym mis Rhagfyr 2024, cafodd 149 o ôl-drafodaethau â charcharorion (neu 99.3%) eu cwblhau, ac roedd 65 o ôl-drafodaethau â staff (43.33%) wedi dod i law ar 14 Ionawr 2025.

Y prif reswm dros ddigwyddiadau UoF oedd carcharor yn gwrthod dychwelyd i'w gell. Cafodd y digwyddiadau a welwyd gan aelodau'r Bwrdd eu cynnal yn dawel ac yn gyflym. Nid yw camerâu fideo a wisgir ar y corff (BWVCs) yn cael eu defnyddio bob amser ac mae'r carchar yn gweithio i fynd i'r afael â hyn. Defnyddiwyd PAVA (chwistrell analluogi) saith gwaith dros y cyfnod. Mae cydlynnydd Defnyddio Grym wedi cael ei benodi, ac mae wedi darparu data.

4.5 Atal eitemau anghyfreithlon

Roedd tua phum ymgais i ddanfôn dronau bob mis ac un achos o daflu drosodd wedi'i gofnodi (lle mae pobl o'r tu allan i'r carchar yn taflu parseli dros y waliau sy'n cynnwys eitemau anghyfreithlon, sydd wedyn yn cael eu casglu gan garcharorion).

Mae'r holl garcharorion sy'n dod i mewn a llythyrau (y gellir eu llenwi â chyffuriau) yn cael eu llungopïo a/neu eu profi am gyffuriau. Mae swyddogion wedi cael eu hyfforddi mewn dehongli delweddau sganwyr corff, sy'n bwysig er mwyn i ddyfarniadau (gwrandawiadau disgyblu a gynhelir pan honnir bod carcharor wedi torri rheolau'r carchar) gael eu cynnal yn gywir. Mae cŵn arogli yn bresennol yn y neuadd ymweliadau, lle mae achosion o drosglwyddo eitemau anghyfreithlon wedi

cael eu rhyng-gipio a'r heddlu wedi cael gwybod. Er gwaethaf hyn i gyd, mae achosion yn aml o garcharorion dan ddylanwad cyffuriau a/neu alcohol.

5. Triniaeth deg a dyngarol

5.1 Llety, dillad, bwyd

Cyrhaeddodd CEF Berwyn gapasiti sawl gwaith yn 2024. Mae yna gelloedd deiliadaeth sengl a deuol, heb unrhyw feddiannaeth ddeuol o gelloedd unigol.

Mae'r esgyll yn lân, yn agored ac yn cael eu cynnal a'u cadw gan Amey. Mae'n rhaid i'r Bwrdd fonitro peiriannau golchi llestri a golchi dillad ar yr esgyll yn gyson. Maen nhw'n torri'n aml ac mae Amey yn araf yn ymateb. Mae'r problemau gyda'r gwres, a godwyd mewn adroddiadau blaenorol, yn llai cyffredin erbyn hyn. Cafodd y gwaith o adnewyddu celloedd ei ohirio, oherwydd pwysau ar gapasiti, felly mae rhai carcharorion yn byw mewn llety is na'r safon, ym marn y Bwrdd.

Yn gyffredinol, mae gan yr esgyll a'r celloedd ddigon o offer, gyda chawodydd, toiledau, setiau teledu a gliniaduron. Mae offer yn aml yn cael ei dorri, ond y carcharorion eu hunain sy'n achosi hyn yn bennaf. Gall carcharorion wneud galwadau ffôn o'u celloedd, ar yr amod bod y rhif wedi'i awdurdodi. Gallant wneud apwyntiadau ar eu gliniaduron neu archebu eitemau fel dillad, byrbrydau a phethau ymolchi o restr gymeradwy.

Mae amrywiaeth o ddewisiadau bwyd ar gael yn y cownter arlwygo, sy'n darparu ar gyfer pob deiet a chrefydd. Mae aelodau'r Bwrdd yn blasu'r bwyd mewn cownteri arlwygo i wirio blas, swm a thymheredd, sy'n foddhaol ar y cyfan. Mae'r Bwrdd yn monitro thermomedrau bwyd, yn dilyn cwynion nad oedd y bwyd yn boeth. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod carcharorion yn dwyn y batris yn y thermomedrau. Erbyn hyn, mae thermomedrau newydd nad oes modd, mewn theori, torri i mewn iddynt.

Roedd y carcharorion y bu aelodau'r Bwrdd yn siarad â nhw yn gwerthfawrogi'r ciniawau a ddarparwyd dros y Nadolig. Darperir prydau arbennig ar gyfer gwahanol wyliau crefyddol, ac mae gweithwyr halal ar gownteri arlwygo perthnasol.

5.2 Gwahanu

Mae'r cyfleusterau ar Ogwen, yr uned gofal a gwahanu (CSU), lle mae carcharorion yn cael eu cadw ar wahân, yn lân ac mewn cyflwr da. Gall pob carcharor ddefnyddio'r iard ymarfer yno unwaith y dydd. Mae'r staff yn brofiadol ac, o'r hyn y mae'r Bwrdd wedi'i weld, maent yn ddyngarol ac yn ymwybodol o fanylion ac anawsterau'r holl garcharorion, llawer ohonynt ag ymddygiad heriol. Yn chwarter olaf y flwyddyn adrodd, roedd Ogwen yn aml yn ansefydlog ac yn llawn i'w gapasiti o 16. Roedd nifer o garcharorion yn aros am gyfnodau hir i gael eu trosglwyddo i unedau diogel. Mae'r ffeiliau'n dangos bod y dynion hyn yn cael eu gweld gan Gyfarwyddwr y Grŵp Carchardai bob 42 diwrnod (y terfyn a ganiateir heb awdurdod allanol i aros yn yr Uned). Erbyn mis Ionawr 2025, gostyngodd nifer y dynion â salwch meddwl y gellir ei ddiagnosisio o'r diwedd, wrth i le gael ei ddarparu mewn unedau diogel. Ond dywedodd uwch staff wrth y Bwrdd eu bod yn teimlo nad oedd digon o leoedd yn gyffredinol, gan fod CEF Berwyn wedi'i adeiladu fel carchar categori C ac nid ar gyfer carcharorion ar remand neu gategori B.

Mae aelodau'r Bwrdd yn siarad â'r holl ddynion ar Ogwen ac yn mynd i ddyfarniadau ac adolygiadau o leiaf unwaith yr wythnos. Rydym wedi sylwi bod adolygiadau Rheol 45 yn dilyn y broses briodol (pan fydd staff yn gwerthuso a ddylai carcharor sydd wedi cael ei wahanu oddi wrth garcharorion eraill i gadw trefn neu ddisgyblaeth dda, neu er eu diogelwch eu hunain, aros yn yr Uned Gofal a

Gwahanu), gydag aelod o staff o'r uned gofal iechyd yn bresennol. Un broblem mewn dyfarniadau yw staff yr asgell yn cwblhau gwaith papur yn wael, sy'n golygu bod yn rhaid gwrthod achosion. Mae mwy o hyfforddiant staff ar hyn wedi cael ei

gyflwyno. Bu cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau i'r heddlu yn sgil dyfarniadau, sy'n golygu bod yn rhaid gohirio'r dyfarniad. Os yw'r dioddefwr yn gofyn i'r achos gael ei gyfeirio at yr heddlu, rhaid gwneud hyn. Dyma'r sefyllfa hefyd mewn achosion lle mae nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) yn berthnasol.

5.3 Perthynas staff a carcharorion, gweithwyr allweddol

O arsylwi a dadansoddi data'r Bwrdd, mae cyfarfodydd gweithwyr allweddol wedi bod yn anfodddhaol ers peth amser, ac nid oedd cynlluniau amrywiol wedi gwella pethau. Ym mis Ionawr 2025, roedd gweithwyr allweddol wedi cael eu dyfarnu i 59.29% o garcharorion. Mae dull newydd ar waith erbyn hyn, sy'n targedu grwpiau nad ydynt yn cael eu cyflogi neu nad ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau, fel, er enghraifft, y gampfa i bobl dros 75 oed a bowls carped, ac ati.

Mae'r Bwrdd yn credu nad oes digon o hyfforddiant i staff mewn sgiliau niwroamrywiaeth a chyfathrebu.

Mae prinder staff bellach yn llai o broblem ac mae hyfforddiant yn parhau ar gyfer staff amhrofiadol. Mae mwy o swyddogion wedi'u dyrannu i wella perfformiad, hyfforddiant a rheoli ansawdd.

Mae cynrychiolwyr carcharorion, Gwrandawyr, staff yr uned gofal iechyd, yr uwch dîm rheoli a'r Samariaid yn mynd i gyfarfod misol y cyngor etholedig ar garcharorion. O arsylwadau'r Bwrdd, mae parch a chwarteisi at ei gilydd, ac mae'r holl eitemau a godir yn cael sylw mewn cyfarfodydd dilynol.

5.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

O arsylwadau'r Bwrdd, mae mynediad da at yr holl gyfleusterau ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, ac mae nifer o gelloedd sy'n addas ar gyfer carcharorion anabl. Dyrennir cyfeillion pan fo hynny'n briodol. Ym mis Gorffennaf 2024, cynhaliodd cynrychiolydd carcharorion arolwg o garcharorion ag anableddau. Y broblem fwyaf oedd diffyg dealltwriaeth gan staff a carcharorion, a bod gweithgareddau gŵyl y banc yn gorfforol yn bennaf. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn yn ystod Pasg 2025. Mae cynrychiolydd staff ar gyfer pobl LHDTC+.

Ar gyfartaledd, roedd tua 60 o garcharorion gwladolion tramor yng Ngharchar EF Berwyn.

Mae gweithgareddau penodol ar gyfer y gymuned sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr (GRT), fel magu hyder, gardd GRT a chrefftau traddodiadol, gan gynnwys gwneud canhwylau. Gwnaeth y grŵp gais llwyddiannus i gael un o'r 80 canhwyl i nodi 80 mlynedd ers yr Holocaust.

Ym mis Ionawr 2025, nid oedd ffurflenni adrodd am ddigwyddiadau gwahaniaethu (DIRF) angen eu llenwi, gan fod pob un wedi cael ei brosesu ac adroddwyd yn ôl arnynt. Roedd y nifer fwyaf o'r rhain yn ymwneud â hil (yn bennaf gan un carcharor, sydd bellach wedi cael ei drosglwyddo) a rhywioldeb. Nid oes ffurflenni DIRF bob amser ar yr esgyll.

Mae gan y cynllun iechyd meddwl newydd gyrsiau hefyd ar gyfer carcharorion sydd â gofynion niwrowahanol.

Mae pobl sy'n cael eu dyfarnu'n euog o droseddau rhywiol (PCoSOs) yn cael eu cadw yn yr asgell carcharorion agored i niwed (VP). Fodd bynnag, gan fod achosion

o fwlio PCoSOs ar yr asgell, maent yn cael eu cadw ar wahân i rai nad ydynt yn PCoSOs. Mae pwysau ar le yn yr asgell i garcharorion agored i niwed yn gwneud hyn yn her. Mae mwy o ryngweithio rhwng staff a charcharorion ar yr asgell hon, yn

ogystal ag uwch swyddog ychwanegol i helpu staff gyda'r gofynion ychwanegol o reoli'r boblogaeth hon. Mae gweithdai ar gyfer carcharorion agored i niwed yn cynnwys gwnïo, weldio, adnewyddu olwynion a rheoli busnes: gan fod PCoSOs yn fwy tebygol o gael eu gwrthod gan gyflogwyr, mae angen iddynt fod yn hunangyflogedig yn aml.

5.5 Ffydd a chefnogaeth fugeiliol

Mae gan adran caplaniaeth Berwyn fannau addoli ar gyfer pob crefydd ac mae'n olau, yn lân ac yn groesawgar. Ceir caplaniaid ar gyfer pob prif grefydd. Cynhelir gwasanaethau drwy gydol yr wythnos, gyda gwasanaethau ar wahân ar gyfer carcharorion agored i niwed. Mae rhan fawr o waith caplaniaid yn ymwneud â chymorth profedigaeth a gwaith dilynol: deliwyd â 370 o brofedigaethau yn ystod y cyfnod adrodd. Mae cwnsela mewn profedigaeth hefyd yn golygu llawer o waith ditectif oherwydd, gyda strwythurau teuluol yn chwalu, gall fod yn anodd i garcharorion ddangos y dylid ystyried yr ymadawedig yn berthynas agos.

Mae diwrnodau sanctaidd yn cael eu nodi gyda gwasanaethau a phrydau arbennig o geginau'r carchar. Mae'r gaplaniaeth yn cysylltu â'r elusen, Barnardo's (sy'n darparu gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn y carchar), y Samariaid a grwpiau ffydd lleol. Mae 'Torwyr patrymau', sy'n fentoriaid cymheiriaid, yn cael eu rheoli gan dîm y gaplaniaeth ac yn delio â charcharorion sy'n gofyn ble i ddod o hyd i ffurflenni a sut i ddefnyddio'r cyfrifiadur, yn ogystal ag ymholiadau am y drefn a'r cynllun cymhellion. Mae torrwr patrymau a Gwrandawr hyfforddedig ar bob asgell.

5.6 Cynlluniau cymhelliant

Bu cyfathrebu gwael ynghylch cynllun cymhellion y carchar. Nid oedd carcharorion yn gallu deall pam roedd statws eu cynllun yn cael ei israddio (o'r lefel uchaf, dyweder, uwch, i'r lefel ganol, safonol, neu'r lefel isaf, sylfaenol) pan wrthodwyd achos adeg dyfarnu. Roedd y pennaeth diogelwch a'r pennaeth preswyl yn awyddus i atal swyddogion rhag israddio carcharorion yn awtomatig, a allai olygu cael gwared ar deledu carcharor, gan y gallai arwain at ddiflastod, a allai arwain at gymryd cyffuriau. Mae pwyslais difrifol wedi bod ar hyn ers mis Tachwedd 2024, gyda gwell gwybodaeth i garcharorion a mwy o hyfforddiant i swyddogion.

5.7 Cwynion

Erbyn diwedd mis Ionawr 2025, roedd y system gwyno wedi chwalu, ar ôl newid staff. Roedd carcharorion yn aml yn rhoi gwybod i'r Bwrdd Monitro Annibynnol nad oedd cwynion yn cael sylw. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol wedi tynnu sylw'r Llywodraethwyr at hyn. Cyn y dadansoddiad, nododd adolygiadau'r Bwrdd Monitro Annibynnol o'r system gwyno'r canlynol:

- Yn gyffredinol, roedd cwynion a oedd yn defnyddio ffurflenni Cwyn 1 (cwynion cyffredin) yn llunio ymatebion a oedd yn mynd i'r afael â'r gŵyn ac o fewn yr amserlen a nodwyd yn y polisi cwynion.
- Mae diffyg cyfathrebu rhwng system y carchar ar gyfer rheoli cwynion a'r un a ddefnyddir gan Amey ar gyfer materion i fynd i'r afael â nhw. Y canlyniad yw nad oes gan y carchar unrhyw wybodaeth ystyrlon y gall ei defnyddio i ymateb i gwynion am lety.
- Mae'r system ar gyfer rheoli cwynion a chael ymatebion o fewn yr amserlen benodedig yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, mae'r system yn cau cwynion a gyfeirir at Amey, er nad oes unrhyw ymateb ystyrlon.

Gwelwyd gostyngiad o fwy na hanner yn nifer y ceisiadau i'r Bwrdd o'i gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol. Mae'r prif faterion yn aros yr un fath - eiddo, iechyd, cysylltiadau â staff a chymhellion (*i gael gwybodaeth am sylwadau ar gymhellion, gweler adran 5.6*).

Daw tua un rhan o bump o geisiadau gan yr un unigolion, felly mae'r nifer yn gostwng pan fydd yr unigolyn hwnnw'n cael ei drosglwyddo.

5.8 Eiddo

Ymdrinnir â'r eiddo yn y dderbynfa, caiff ei lofnodi gan y carcharor a'i storio'n gywir, ym marn y Bwrdd. Mae carcharorion yn cwyno am eiddo coll o drosglwyddiadau, sy'n gorfod cael eu hailgyfeirio i'r carchar blaenorol. Mae llawer o gwynion yn ymwneud ag eitemau heb eu hawdurdodi sy'n cael eu storio nes bydd y carcharor yn cael ei ryddhau.

6. Iechyd a llesiant

6.1 Gofal iechyd cyffredinol

Darperir gofal iechyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r ganolfan gofal iechyd yn lân ac yn llawn offer, ond mae galw mawr am ei gwasanaethau. Ac ystyried demograffeg poblogaeth y carchar a charcharorion sy'n aml yn camddefnyddio sylweddau yn y tymor hir, mae iechyd cyffredinol y dynion yn waeth na'r cyfartaledd yn y gymuned. Mae gan garcharorion hŷn salwch tymor hir neu derfynol, sy'n gofyn am ddulliau rheoli cymhleth a phresenoldeb cynyddol staff gofal iechyd a charchardai.

6.2 Gofal iechyd corfforol

Cynhelir cyfarfodydd gofal iechyd misol ar gyfer yr uwch dîm rheoli, Gwrandawyr, cynrychiolwyr o faes gofal iechyd a'r Samariaid. Mae staff gofal iechyd yn cynnwys staff sesiynol:

- 2 radiograffydd
- 1 podiatrydd
- 2 awdiolegydd
- 1 optegydd
- 2 gynghorydd iechyd rhywiol
- 1 nyrs liniarol staff

amser llawn dan gontract:

- 4 meddyg teulu (ar is-gontract)
- 7 deintydd
- 3 parafeddyg
- 1 ymarferydd gwella iechyd
- 24 o staff gwasanaethau corfforaethol
- 19 o nyrsys gofal sylfaenol
- 1 gweithiwr cymdeithasol gofal iechyd
- 1 gwaedydd
- 5 nyrs triniaeth camddefnyddio sylweddau
- 10 gweithiwr seicogymdeithasol
- 6 ymarferydd seicogymdeithasol
- 9 therapydd
- 4 fferylllydd
- 13 o dechnegwyr fferyllol
- 2 gynorthwydd fferyllfa

Yr amser aros am apwyntiad deintyddol arferol oedd 29 wythnos, o fis Rhagfyr 2024 ymlaen. Mae'r gyfradd ar gyfer diffyg presenoldeb mewn apwyntiadau gofal iechyd, sy'n cynnwys DNAs (ddim yn bresennol) a CNAs (ddim yn gallu bod yn bresennol), wedi bod rhwng 9% ac 11% dros y cyfnod adrodd.

Mae staff gweinyddol gofal iechyd yn delio â'r rhan fwyaf o geisiadau sy'n cael eu hanfon i'r ganolfan gofal iechyd, ac mae staff nyrsio yn delio/brysennu ceisiadau 'am apwyntiad'.

6.3 Iechyd meddwl

Mae gan nifer fawr o garcharorion broblemau iechyd meddwl. Mae'r rhain yn cynnwys sgitsoffrenia, paranoia, anhwylderau personoliaeth, awtistiaeth, ac anallu i hunanreoleiddio. Does dim digon o staff yn yr uned iechyd meddwl. Mae wyth ymarferydd iechyd meddwl, tri seicolegydd, pum seiciatrydd, pum nyrs iechyd meddwl ac un therapydd galwedigaethol. Mae'r rhaglen (rhaglen ymddygiad troseddol achrededig ar gyfer dynion sydd wedi'u cael yn euog o drais cyffredinol, trais ar bartner agos a/neu droseddau rhywiol) yn cael ei dileu'n raddol. Ers mis Chwefror 2025, mae Berwyn wedi mabwysiadu Building Choices yn gynnar. Mae'n cynnwys grwpiau amrywiol o wyth carcharor - dwysedd uchel a chanolig yn dibynnu ar y difrifoldeb ac mae'n seiliedig ar asesiadau ar gyfer risg ac angen, a lefel dealltwriaeth y carcharor - yn ogystal â rhaglenni ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu. Mae'n canolbwyntio ar 'fy nyfodol i', yn hytrach na'r gorffennol. Mae carcharorion yn dysgu sgiliau bywyd fel pendantrwydd, negodi, ymwybyddiaeth ofalgar ac anadlu'n ddwfn i dawelu, ac nid siarad am y sgil hon yn unig maen nhw, ond eu hymarfer hefyd, gyda chyfranogwyr yn cael eu hannog i ddisgrifio sut maen nhw wedi defnyddio'r sgiliau hyn ar yr esgyll. Mae'r staff sy'n cymryd rhan wedi cael hyfforddiant ychwanegol. Dywedodd staff wrthym fod rhai swyddogion esgyll wedi adrodd ar well ymddygiad ymysg carcharorion sy'n dilyn y cyrsiau hyn.

Un flaenoriaeth yw prinder cenedlaethol meddyginiaethau ADHD (anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd). Mae gwrandawyr yn tynnu sylw at feysydd i fynd i'r afael â nhw mewn hyfforddiant, fel, er enghraifft, pan ddywedodd un ohonynt nad yw rhai staff yn sylweddoli bod pobl niwrowahanol yn deall pethau'n wahanol. Os bydd swyddog yn dweud, 'Fe fydda i'n ôl mewn dau funud', mae'r carcharor yn disgwyl iddyn nhw ddod yn ôl mewn 120 eiliad.

6.4 Gofal cymdeithasol

Mae carcharorion yn cael eu sgrinio yn y dderbynfa ar gyfer unrhyw drefniadau gofal sydd eisoes yn bodoli. Caiff cyfeillion eu neilltuo i garcharorion ag anghenion symudedd tra bo Asesiadau yn y sefydliad yn cael eu hadolygu o dan ddeddfwriaeth mewn patrwm o bedair wythnos/chwe wythnos/12 mis. Mae gan dri carcharor gynlluniau gofal cymdeithasol, sy'n cynnwys mewnbwn aml-asiantaeth lle bo angen. Cyn trosglwyddo neu ryddhau, mae'r awdurdodau lleol sy'n derbyn yn darparu asesiadau.

6.5 Amser allan o'r gell, y drefn

Mae amser allan o'r gell yn dibynnu ar argaeledd swyddogion. Mae cwynion nad yw carcharorion sy'n gweithio yn cael amser yn yr awyr agored. Mae hyn wedi gwella yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae gan Berwyn neuadd chwaraeon, campfa a chaeau awyr agored. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys pêl-droed, badminton, hyfforddiant X-Fit a rhaglen redeg. Mae tua 55 o garcharorion yn mynd i bob sesiwn. Nid oedd gan garcharorion y bu'r Bwrdd yn siarad â nhw unrhyw gwynion ac roeddent yn hoffi'r cyfleusterau campfa yn arbennig. Mae campfa hefyd yn y gweithdy triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Roedd y dynion y siaradodd y Bwrdd â nhw yno yn

siarad yn gadarnhaol iawn am eu profiad. Roedd ardaloedd y gampfa yn lân ac yn daclus pryd bynnag yr ymwelodd y Bwrdd.

6.6 Adsefydlu cyffuriau ac alcohol

Mae gan CEF Berwyn asgell benodol ar gyfer adferiad cyffuriau a gweithdy yn benodol ar gyfer carcharorion SMS (camddefnyddio sylweddau). Dywedodd rhai o'r staff a'r carcharorion y bu'r Bwrdd yn siarad â nhw nad oes ffocws i'r gweithdy SMS, sy'n bryder, gan fod diflastod yn arwain at gymryd cyffuriau.

Dywedodd staff wrth y Bwrdd fod llawer o gamddefnyddio sylweddau oherwydd diflastod, felly gwneir ymdrechion i ganfod carcharorion nad ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r pwyslais ar adsefydlu yn hytrach na chosbi. Gan fod gan lawer o ddefnyddwyr cyffuriau cyson nifer o broblemau, mae'r carchar wedi mabwysiadu dull graddol, gan ddathlu buddugoliaethau bach. Roedd 2245 o achosion o garcharorion dan ddylanwad (UTI) yn 2024. O'r 564 o garcharorion dan sylw, roedd 326 yn ddi-waith, yn sâl neu'n gwrthod gweithio. Mae dau gynrychiolydd cymheiriaid strategaeth cyffuriau ar bob asgell, sy'n ymweld â charcharorion UTI y diwrnod canlynol i drafod pam eu bod wedi cymryd cyffuriau a pham eu bod dan straen, yn ogystal â chynnig cymorth. Cyfarwyddir staff i beidio ag israddio statws cynllun cymell carcharorion yn awtomatig. Ond os yw dynion wedi diflasu, maen nhw'n cael gweithgareddau ac yn cael eu cyfeirio at grwpiau, fel, er enghraifft, grŵp arbenigol yn y gampfa. Mae defnyddwyr cyson yn cael eu rhoi ar CSIPs (cynlluniau herio, cefnogi ac ymyrryd). Nid ar atafaelu yn unig y mae'r pwyslais, ond ar gamau dilynol hefyd.

Cyfeirir carcharorion o Gymru at ganolfannau triniaeth cyffuriau ac alcohol Kaleidoscope.

Mae data'n dangos bod y defnydd o gyffuriau wedi cynyddu llai rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2024 nag y byddai fel arfer, wrth i ymdrechion ar y cyd gael eu gwneud i ddeall yr heriau i garcharorion dros gyfnod yr ŵyl ac i leddfu'r problemau.

6.7 Sgiliau meddal

Mae'r ganolfan llesiant wedi agor. Mae'n cynnwys salon trin gwallt â'r holl offer angenrheidiol, ioga, bwyty, manau gorffwys ac ystafelloedd dosbarth ar gyfer grwpiau iechyd meddwl. Mae hefyd yn gartref i'r elusen Street Soccer Academy, sy'n cynnal wyth cwrs achrededig chwe wythnos bob blwyddyn. Mae'r cyrsiau'n rhai llawn amser, mewn ystafell ddosbarth ac ar gae pêl-droed y tu allan. Gan adlewyrchu strwythur rheoli pêl-droed, mae'n dysgu sgiliau bywyd a hyfforddiant mewn iechyd corfforol a meddyliol. Dywedodd un cyfranogwr wrth y Bwrdd mai hwn yw'r 'cwrs gorau yn y carchar' a dywedodd eraill eu bod wedi dysgu am ddiogelu, maeth, iechyd meddwl, cynhwysiant ac ymgysylltu. Mae gan yr elusen gysylltiadau â Byddin yr Iachawdwriaeth, y gwasanaeth prawf, canolfannau tai a chyflogaeth y tu allan i'r carchar, ac mae canolfannau cyswllt y gall carcharorion sy'n cael eu rhyddhau gysylltu â nhw 24/7. Ar ôl cael eu rhyddhau, y prif anghenion yw iechyd corfforol a meddyliol a thai. Dywedodd yr hyfforddwr wrth y Bwrdd fod lefelau pryder wedi cynyddu oherwydd y cynllun rhyddhau cynnar, a bod rhai cyfranogwyr wedi cael eu rhyddhau gyda 72 awr o rybudd, nad yw'n ddigon o amser i'r gwasanaeth prawf fapio cynllun.

7. Cynnydd ac ailsefydlu

7.1 Addysg, llyfrgell

Darperir addysg gan Goleg Cambria, mewn adeilad modern, wedi'i awyru'n dda. Mae 37 o leoedd amser llawn ar gael: mae tri ar gael ar gyfer gwaith barbwr, 14 o hyfforddeion cegin ac 17 ar Street Soccer Academy. Mae cyfanswm o 232 o leoedd rhan-amser ar gael, gyda 220 yn manteisio arnynt.

Mae cyrsiau, rhai ohonynt hyd at lefel gradd, yn cynnwys:

- Celf (mae rhai yn gwneud cymhwyster NCFE mewn celf a dylunio; mae eraill yno i gael cymorth iechyd meddwl/mwynhau)
- Coginio sylfaenol
- Academi Street Soccer (gweler 6.7)
- Mathemateg a Saesneg hyd at Lefel 3
- Cyfryngau digidol
- Technoleg cerdd
- Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill
- Dylunio graffeg
- Byw'n annibynnol
- Mentora cymheiriaid

Mae'r ystafelloedd dosbarth yn llawn offer. Mae gan y dosbarth cerddoriaeth wahanol gitarau, allweddellau, cit drymiau, meddalwedd a bwth gwrthsain ar gyfer recordio a chynhyrchu, yn ogystal â deg cyfrifiadur gyda meddalwedd o'r radd flaenaf.

Mae'r rhan fwyaf o ddosbarthiadau'n cynnwys rheoli busnes a sgiliau pobl, yn ogystal â'r cwricwlwm academaidd sylfaenol. Roedd pawb a gymerodd ran yn y cwrs busnes yn frwdfrydig. Gellir cymhwyso'r gwersi o'r cwrs i fywyd yn gyffredinol, y tu mewn a'r tu allan i'r carchar.

Weithiau, mae'r staff yn teimlo mai dim ond cadw carcharorion yn brysur mae'r dosbarthiadau. Hoffai'r Llywodraethwr weld yr adran addysg yn gweithio ochr yn ochr â rhai o'r gweithdai, e.e. sgaffaldiau, fel bod y dysgu'n berthnasol i waith.

Siaradodd y Bwrdd â charcharorion ar y cwrs mentora cymheiriaid, a oedd yn frwdfrydig ac yn dweud eu bod eisiau gwneud gwahaniaeth.

7.2 Hyfforddiant galwedigaethol, gwaith

Ym mis Rhagfyr 2024:

- roedd 25.7% o garcharorion mewn gweithgarwch pwrpasol amser llawn
- roedd 34.8% mewn gweithgarwch pwrpasol hanner amser
- roedd 49.8% mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl eu rhyddhau (mae hyn yn agos at frig y grŵp cymharydd perfformiad)

O arsylwadau'r Bwrdd, mae gweithdai a hyfforddiant wedi gwella dros y cyfnod adrodd. Mae nifer o weithdai, ac mae llawer ohonynt yn darparu cymwysterau i garcharorion fel cardiau CSCS (cynllun ardystio sgiliau adeiladu) (sy'n profi bod gan weithwyr adeiladu yr hyfforddiant a'r cymwysterau angenrheidiol ar gyfer eu swyddi). Mae'r cynllun rhyddhau cynnar wedi golygu nad oedd rhai'n gallu cwblhau

eu cardiau CSCS mewn pryd. Mae'r gweithdai'n cynnwys: ailgylchu, ailgylchu deunyddiau, dosbarthu DHL, glanhau diwydiannol a warysau.

Mae'r gweithdy gwnïo yn elwa o gcontract pum mlynedd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gynhyrchu bagiau tywod. Gall hyfforddiant gymryd 1-30 diwrnod, ac mae'n cynnwys sgiliau trosglwyddadwy fel rheoli amser a threfnu mannau gwaith a chyflenwadau. Roedd y carcharorion yno wrth eu bodd bod eu bagiau tywod wedi cael eu defnyddio i amddiffyn pobl rhag llifogydd.

Mae presenoldeb mewn gweithdai yn amrywio, oherwydd nad yw swyddogion yn rhyddhau carcharorion i'w hebrwng, neu apwyntiadau meddygol neu apwyntiadau eraill, neu ddiffyg ewyllys yn unig. Mae'r gweithdy gwnïo yn cael ei arwain gan fonws, felly mae presenoldeb yn dda. Yn ystod cyfnodau brig, mae'r gweithdy DHL yn brysur oherwydd bod gan yr uned gyfan dargedau heriol. Mae'r dynion yn hoffi'r ffaith eu bod yn brysur. Maent yn cael bonws wythnosol o £12 os ydynt yn cyrraedd eu targedau unigol. Maent yn dechrau yn yr academi allweddol yn Haen 1 ar gyfer cynefino a hyfforddiant ac yn symud ymlaen i Haen 2 pan fyddant yn y cam ailsefydlu/categori D (yn gymwys ar gyfer carchar agored). Yn Haen 2, maent yn cael cyngor ar geisiadau am swyddi, geirdaon, CVs a ffug gyfweiliadau ar gyfer swyddi ar ôl cael eu rhyddhau.

Mae bwyty wedi agor yn y ganolfan llesiant. Mae'n lân ac yn groesawgar ac mae'n cynhyrchu bwyd rhagorol, i'w fwyta i mewn neu i fynd oddi yno gyda chi. Mae te prynhawn ar gael hefyd, i'w archebu ymlaen llaw. Pan ofynnodd aelod o'r Bwrdd am ofynion deietegol ym mis Ionawr 2025, dywedodd goruchwyliwr y gegin y byddai'n gosod tasg i'r dynion ddatblygu prydau priodol.

7.3 Rheoli troseddwy'r a'u cynnydd

Dechreuodd pum swyddog prawf newydd ym mis Chwefror 2025, ac mae angen eu mentora a'u huwchsgilio. Ceir cyflenwad llawn o 16 rheolwr troseddwy'r mewn carchardai (POMs), ac mae gan bob un ohonynt rhwng 50 a 60 o achosion. Mae carcharorion yn cael gafael ar wybodaeth am eu POM ar system Unilink ac mae'n ymddangos bod POMs yn ymweld â phob asgell yn rheolaidd i ddarparu cymorth ac ateb cwestiynau.

Mae'r cynlluniau rhyddhau cynnar wedi rhoi pwysau dwys a pharhaus ar yr uned rheoli troseddwy'r (OMU). Arweiniodd pob newid at ailgyfrifo dedfrydau'n sylweddol. Dylai amodau'r drwydded gyrraedd bedair wythnos cyn rhyddhau ond gallant ddod 72 awr cyn hynny weithiau.

Mae'r Rheolwyr Troseddwy'r yn y Carchar yn ailddechrau gweithio gyda dynion sydd â phrofiad o ofal, gyda fforymau misol o fis Chwefror 2025 ymlaen. Mae'r dynion hyn yn cael eu cefnogi gan swyddogion ar yr esgyll, sy'n bwyntiau cyswllt penodol (SPOCs). Mae Lleisiau Gofal Cymru wedi sicrhau cyllid ar gyfer swydd amser llawn i weithio yn Berwyn, i helpu gyda gwaith pontio, yn enwedig o ran llety. Yn 2024, rhyddhawyd 220 (10%) o garcharorion heb lety.

Cynhelir ffeiriau cyflogaeth misol, a'r rhai mwyaf poblogaidd yw adeiladu a warysau. Yn 2024, Berwyn oedd â'r nifer uchaf o garcharorion mewn cyflogaeth ar ôl cael eu rhyddhau yn ei grŵp cymharol.

7.4 Cyswllt â theulu

Mae gan bob carcharor, ac eithrio'r rheini sydd wedi cael eu gwahanu yn yr uned gofal a gwahanu (CSU), liniaduron a ffonau yn eu celloedd a gallant gysylltu â ffrindiau ac aelodau o'r teulu sydd wedi'u cymeradwyo rhwng 7am a 10pm neu, ar gyfer carcharorion sydd ar gyfyngiadau, rhwng 9am a

9pm (diben y terfyn amser hwn yw atal aflonyddu). Mae carcharorion yn cael eu hannog i ddarllen straeon amser gwely i'w plant gan ddefnyddio Storybook Dads.

Trefnir ymweliadau cymdeithasol ymlaen llaw. Gan fod carcharorion bellach yn dod o ardal lawer ehangach, os na fyddant yn dod i'r neuadd ymweliadau ar amser, gall teuluoedd golli cludiant y maent wedi'i archebu i fynd adref.

Mae diwrnodau teulu Barnardo's (sy'n dod â dynion a'u teuluoedd at ei gilydd y tu allan i'w hawl statudol i ymweliadau cymdeithasol, fel arfer mewn lleoliadau mwy anffurfiol) yn parhau i gefnogi perthnasoedd teuluol. Mae aelodau'r Bwrdd Monitro Annibynnol wedi bod yn dyst i ddiwrnodau chwaraeon yn yr haf, Dyddiau Nadolig a themâu penodol eraill.

Mae Berwyn wedi cyflwyno cynllun peilot bwydo ar y fron, i helpu i'w gwneud yn haws i famau sy'n bwydo ar y fron ddod i ymweliadau cymdeithasol a phheidio â theimlo eu bod yn tynnu sylw.

Cafwyd 12 achos o atgyfeiriad diogelu i'r gwasanaethau cymdeithasol, gyda thri phwnc i adran 47 (pryderon brys) a saith yn destun cynlluniau plentyn mewn angen.

Mae llwyth achosion y llys wedi cynyddu'n sylweddol ers y llynedd, gyda 136 o achosion yn cael eu rheoli gan dri aelod o staff Barnardo's. Mae problem o hyd o ran danfon papurau llys yn hwyr, ac anawsterau gyda Cafcass (Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd): er enghraifft, nid oes gan Cafcass a'r gwasanaethau plant yr wybodaeth gywir bob amser am ddynion yn gallu gweld eu plant. Gwahoddwyd penaethiaid ysgolion i ymweld a dywedodd un pennaeth cynradd fod hyn wedi ei alluogi i dawelu meddwl plentyn yn yr ysgol yr oedd ei dad yng Ngharchar EF Berwyn.

7.5 Cynllunio gwaith ailsefydlu

Yn ei arolygiad ym mis Chwefror 2025, nododd Arolygiaeth Carchardai EF welliant o ran paratoi ar gyfer rhyddhau, er gwaethaf pwysau'r boblogaeth, amodau trwydded yn cyrraedd yn hwyr, mwy o ansefydlogrwydd, a grŵp carcharorion cymhleth ac amrywiol Berwyn. Gyda mwy o achosion o ryddhau cynnar, mae staff ailsefydlu yn canolbwyntio ar garcharorion yn cwblhau cymwysterau.

Mae swyddog gwasanaethau adsefydlu wedi'i gomisiynu (CRS) yn y carchar y rhan fwyaf o ddiwrnodau, yn ogystal â gweithiwr CRS ar remand, sy'n rhoi cyngor ar gadw llety, gwasanaethau digartrefedd, cysylltiadau lleol, ac ati. Mae hyn yn berthnasol i ogledd Cymru yn unig. Ar wahân i Gyngor Bwrdeistref Wreccsam, mae awdurdodau gogledd Cymru yn dod i mewn i Berwyn chwe wythnos cyn rhyddhau carcharor er mwyn ei asesu ar gyfer tŷ. Ni all Wreccsam ddweud a yw'r meini prawf yn cael eu bodloni tan y diwrnod rhyddhau, sy'n golygu bod rhai dynion yn ddigartref yn y pen draw. Ddechrau 2025, cynhaliodd y carchar ddiwrnod dysgu ar gyfer uwch swyddogion prawf yn y gymuned, gan ganolbwyntio ar ddewisiadau eraill yn lle galw yn ôl ac ymyriadau posibl eraill.

8. Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

Ystadegau'r Bwrdd

Nifer yr aelodau Bwrdd sy'n cael ei argymhell	18
Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd	6
Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	9
Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad	474

Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol

Cod	Pwnc	Blwyddyn adrodd flaenorol	Blwyddyn adrodd bresennol
A	Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, ymolchi	38	20
B	Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, cynllun cymhellion, sancsiynau	21	15
C	Cydraddoldeb	9	7
D	Gweithgareddau pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, amser y tu allan i'r gell	20	8
E1	Llythyrau, ymweliadau, ffonau, diogelu'r cyhoedd, cyfyngiadau	41	17
E2	Cyllid, gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant	17	9
F	Bwyd a cheginau	16	4
G	Iechyd, gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol	44	26
H1	Eiddo yn y sefydliad	42	20
H2	Eiddo yn ystod trosglwyddo, neu mewn cyfleuster arall	31	10
H3	Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalogau	11	1
I	Rheoli dedfryd, gan gynnwys cyrffiw cyfyngu i'r cartref (HDC), rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL), parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio	44	21
J	Pryderon staff/carcharorion, gan gynnwys bwlio	58	20
K	Trosglwyddiadau	12	10
L	Amrywiol	58	35
	Cyfanswm y ceisiadau	462	223



Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint berthnasol i'w defnyddio.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom at imb@justice.gov.uk